

Roedd **Gwenno'r** gwningen yn byw fel anifail anwes i deulu o dri ar **55 Stryd Moron, Eglwys Werdd, Cymru**.

Cwningen wen gyda chlustiau hir a chynffon smwt oedd **Gwenno**.

Bob tro byddai **Gwenno** yn gweld bwyd, byddai **Gwenno'r** gwningen yn siglo ei chynffon yn gyffrous. A'i hoff fwyd yn y byd i gyd oedd **ciwcymbr gwyrdd**.



Ond, nid bwyd oedd yr unig beth roedd **Gwenno'r** gwningen yn hoffi'i fwyta.

Roedd **Gwenno'r** gwningen wrth ei bodd yn cnoi trwy bopeth.



Roedd **Gwenno'r** gwningen wrth ei bodd yn cnoi trwy hosanau **oren**.

Roedd **Gwenno'r** gwningen wrth ei bodd yn cnoi trwy glustogau **coch**.

Roedd **Gwenno'r** gwningen wrth ei bodd yn cnoi trwy garpedi **brown**.

Ac roedd **Gwenno'r** gwningen wrth ei bodd yn cnoi trwy lenni **glas**.

Guto oedd perchennog **Gwenno**, sef bachgen 6 a hanner blwydd oed a oedd yn hoffi **chwarae pêl-droed**, hoffi **darllen straeon am gewri** ac yn hoffi **gwneud celf a chreffft**.

Ond hoff beth **Guto** yn y byd i gyd oedd ei anifail anwes, sef **Gwenno'r** gwningen.

Ond roedd mam a dad **Guto** gyda theimladau gwahanol iawn tuag at **Gwenno'r** Gwningen.

Roedd dad **Guto** wedi cael llond bol o **Gwenno'r** gwningen yn cnoi trwy ei hosanau **oren**.


“**Dim eto!**” byddai dad **Guto'n** gweiddi ar **Gwenno**.

Roedd mam **Guto** wedi cael llond bol o **Gwenno'r** gwningen yn cnoi trwy glustogau **coch** y tŷ.

"**Dim eto!**" byddai mam **Guto'n** gweiddi ar **Gwenno**.



Roedd dad **Guto** wedi cael llond bol o **Gwenno'r** gwningen yn cnoi trwy garpedi **brown** y tŷ.



"**Dim eto!**" byddai dad **Guto'n** gweiddi ar **Gwenno**.

Roedd mam **Guto** wedi cael llond bol o **Gwenno'r** gwningen yn cnoi trwy lenni **glas** y tŷ.

"**Dim eto!**" byddai mam **Guto'n** gweiddi ar **Gwenno**.

Ond roedd **Guto** yn caru **Gwenno'r** gwningen, a byddai **Guto** yn chwerthin bob tro byddai **Gwenno** yn cnoi trwy'r hosanau **oren**, clustogau **coch**, carpedi **brown**, a'r llenni **glas**.

Er hyn, roedd mam a dad **Guto** yn agos iawn i golli eu hamynedd gyda **Gwenno'r** gwningen am ei bod hi'n cnoi **POPETH!**

Ond roedd hyn i gyd ar fin newid ar un ddiwrnod **glawog** ym mis Ebrill...

Wedi diflasu ar eistedd o gwmpas y tŷ, oherwydd y **glaw** mawr y tu allan, penderfynodd **Guto** a'i rieni eu bod nhw am fynd ar drip i'r **sinema**.

Gwisgodd **Guto** ei got **felen** gyda **rocedi** bach drosti yn barod i fynd allan i'r **glaw**.



Rhedodd **Guto** a'i rieni o'r tŷ i mewn i'r car yn barod i adael i'r **sinema**.
Ond cyn i dad **Guto** gynnu'r car clywodd y tri ohonynt...

BANG! CRAC! BŴM!



Roedd y tri ohonynt methu credu eu llygaid.

Roedd yna **goeden** enfawr wedi cwmpo o flaen y car!

Aeth dad **Guto** allan i'r **glaw** i drïo symud y **goeden**.

Ond roedd y **goeden** yn rhy drwm.

Aeth mam **Guto** allan i'r **glaw** i drïo symud y **goeden**.

Ond roedd y **goeden** yn rhy drwm.

Aeth **Guto** allan i'r **glaw** i drïo helpu symud y **goeden**.

Ond roedd y **goeden** yn rhy drwm.

Sylwodd rhai o'r cymdogion ar y trwbwl a daeth rhai ohonynt draw yn y **glaw** i drïo helpu symud y **goeden**.

Ond roedd y **goeden** yn dal i fod yn rhy drwm.

Doedd neb digon cryf i symud y **goeden**.

Doedd dim ffordd o gwmpas y **goeden** neu dros ben y **goeden**.

Roedd y trip i'r **sinema** wedi'i ddifetha...

Nes i **Gwenno'r** gwningen ddod i achub y dydd!

Yn araf deg, naid ar ôl naid, daeth **Gwenno'r** gwningen allan o'r tŷ at y **goeden**.

Sylwodd **Gwenno** ar y broblem yn syth.

Dealodd **Gwenno** beth roedd angen iddi ei wneud er mwyn achub y dydd.

Agorodd ei cheg **binc** i ddangos dau ddant tenau a main.

Edrychodd **Gwenno** ar **Guto** am eiliad. Yna, aeth ati gyda'i dau ddant tenau a main i gnoi ar foncyff y **goeden**.

Mewn chwinciad roedd **Gwenno'r** gwningen wedi cnoi trwy'r boncyff. Gyda help eu cymdogion, rholiodd mam a dad **Guto** y **goeden** allan o'r ffordd.

O'r diwedd, roedd **Guto** a'i rieni'n gallu mynd i'r **sinema!**

Rhoddodd **Guto** gwtsh anferthol i **Gwenno'r** gwningen.



Fel gwobr am achub y dydd, cafodd **Gwenno'r** gwningen y **ciwcymber gwyrdd** mwyaf a welwyd erioed.



Ar ôl i **Gwenno** achub y dydd, roedd **Gwenno'r** gwningen yn cael cnoi trwy gymaint o hosanau **oren**, clustogau **coch**, carpedi **brown**, a llenni **glas** ag yr hoffai.

Gan Rhiannon Lloyd Williams a Sioned Medi Evans